**RHESTR O'R EGWYDDORION SY'N YMWNEUD Â GWEITHREDIAD Y SYSTEM GWYBODAETH AM DDYFEISIAU MEDDYGOL**

**Llywodraethu**

- Sicrhau cytundeb ar y cyd rhwng pedair gwlad y DU a'i reoli dros gronfa ddata MDIS, ond gyda phob gwlad yn cadw rheolaeth dros ei data ei hun;

- Cael cytundeb ar y cyd rhwng pedair gwlad y DU ar y strategaeth, y swyddogaeth, y gweithrediad a'r cyfeiriad sydd i'w dilyn gan yr MDIS arfaethedig drwy ymgysylltu'n agos â datblygu rheoliadau fel y gall pawb gyfrannu at sicrhau'r integreiddio gorau posibl rhwng yr MDIS â'u trefniadau casglu data cenedlaethol;

- Bod yn rhan o'r gwaith o gytuno ar drefniadau a gweithdrefnau adrodd yr MDIS ar gyfer ymdrin ag anghytundebau/gwrthdaro a sut y byddent yn cael eu datrys;

- Sicrhau bod costau llawn sefydlu a gweithredu'r MDIS, gan gynnwys y rhai sydd i'w hysgwyddo gan bedair gwlad y DU, yn cael eu cofnodi'n gywir a bod darpariaeth lawn yn cael ei gwneud ar eu cyfer yn y setliadau ariannol priodol;

- Cymryd rhan lawn yn y gwaith o bennu safonau gwybodaeth cyffredin megis casglu data, safonau ansawdd a chadw;

- Cymryd rhan lawn mewn penderfyniadau allweddol megis a ddylid cael cofrestrfa dyfeisiau meddygol ledled y DU a'i manylebau, gwerthu data i sefydliadau masnachol;

- Cadw rheolaeth dros a ddylid cymryd camau gorfodi, pryd a chan bwy, a gosod cosbau o fewn awdurdodaeth pob gwlad.

**Gweithredol/Data**

- Sefydlu cytundeb ar y cyd rhwng pedair gwlad y DU ar gyfer nodi'r data sydd i'w gasglu, sut, gan bwy, llif a defnydd y data a darparu ar gyfer mynediad cyfartal iddo, gan gynnwys y data crai, fel na all unrhyw un wlad wneud mwy gyda'r data na gwlad arall;

- Sicrhau ymgysylltiad cynnar ac ystyrlon â chleifion, clinigwyr, y cyhoedd a diwydiant am yr MDIS fel y deellir sut y caiff eu data ei gasglu a'i defnyddio, gan gydnabod materion yn ymwneud â chydsyniad a phreifatrwydd a chytuno ar y ffordd orau i gleifion, clinigwyr, y cyhoedd, diwydiant ac eraill gael mynediad at y data.